# Darganfod Dyffryn Dyfrdwy

Teithiau cerdded i archwilio harddwch, hanes a bywyd gwyllt Dyffryn Dyfrdwy.



**Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy**
Tirwedd Cenedlaethol

**Clwydian Range and Dee Valley**
National Landscape

# Archwilio **Dyffryn Dyfrdwy**



o Ddyffryn Edeirnion rhwng creigiau Mynyddoedd y Berwyn i'r warchodfa natur newydd islaw Sgarp Calchfaen Eglwyseg.

Darganfyddwch drysorau cudd ar hyd pedair priffordd fawr Dyffryn Dyfrdwy; yr afon, y gamlas, y rheilffordd a ffordd hanesyddol y goets fawr. O goetiroedd derw i nodweddion hanesyddol, ar hyd tir hygyrch a thir mwy heriol, mae yma rywbeth i bawb.

Gwnaed yn bosibl gan | Made possible with
Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund



Mae'r llyfryn hwn wedi ei ddylunio i'ch helpu chi i weld beth o hanes a bywyd gwyllt hynod ardal Corwen a Dyffryn Dyfrdwy.

Er y gwnaethpwyd pob ymdrech i wneud y daflen hon mor fanwl gywir ag sydd bosib, nid yw'r awduron na'r cyhoeddwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ganlyniadau gwallau. Printiwyd y daflen ar bapur wedi ei ailgylchu.

I gael rhagor o wybodaeth, chwiliwch:
Tirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

# Archwiliwch Gyda'r Trên

## Teithiau cerdded o'r gorsafoedd

Beth am gymryd y trên a mwynhau amrywiaeth o deithiau hyfryd o unrhyw rai o'r pum gorsaf reilffordd ar hyd Lein Reilffordd Treftadaeth Llangollen?

CORWEN

CARROG

GLYNDYFRDWY

BERWYN

LLANGOLLEN

**Sefydlwyd Rheilffordd Llangollen yn 1975 gan grŵp o gefnogwyr brwd yn dilyn cau'r brif lein i deithwyr yn 1965 ac i nwyddau yn 1968.**

Heddiw Rheilffordd Llangollen yw'r unig reilffordd dreftadaeth maint safonol yng Ngogledd Cymru. O ganol mis Chwefror tan ganol mis Tachwedd gallwch fwynhau taith 10 milltir hamddenol mewn trên stêm, loco diesel treftadaeth neu gar rheilffordd treftadaeth, gan deithio drwy rai o'r golygfeydd prydferthaf yng Nghymru.



"Few rides excel the ride from Llangollen to Corwen"

**John Broster, 1802**

# Pen y Pigyn

**Pen y Pigyn yw'r bryn serth y mae Corwen yn gorwedd oddi tano. Mae llwybrau troed yn arwain ato y tu ôl i adeilad y Wyrcws a'r tu ôl i'r eglwys.**



Mae'r llwybrau'n troelli drwy goetir derw a bedw, heibio cylch cerrig yr Orsedd. Gallwch ddilyn y Llwybr Dagr 1/4 milltir a manteisio ar safleoedd picnic hyfryd. Mae yna olygfan ar y brig lle yn ôl y chwedl y taflodd Owain Glyndŵr, ei ddagr mewn gwylltineb o ochr y bryn gyda chymaint o rym hyd nes y gadawodd ei amlinelliad mewn carreg islaw. Mae'r garreg, gyda'i marc dagr rhyfedd, i'w gweld hyd heddiw yn gweithredu fel lintel uwchben drws deheuol Eglwys Sant Mael a Sant Sulien.

Dilynwch y prif lwybr i fyny'r grisiau hyd nes y byddwch yn cyrraedd y gofeb. Wedi ei hadeiladu yn 1863 (ac wedi'i hadfer yn ddiweddarach) mae'n coffáu priodas Tywysog Cymru bryd hynny, yn ddiweddarach Edward VII gydag Alexandra o Ddenmarc.

## Eisteddfod Heddwch Corwen 1919

Codwyd Cylch Meini'r Orsedd yn 1919 ar gyfer seremoni agoriadol yr Eisteddfod Genedlaethol 1919. Roedd yn achlysur arbennig iawn gan mai dyma'r Eisteddfod gyntaf yn dilyn y Rhyfel Mawr. Dychmygwch y bwrlwm yn y dref gyda miloedd o ymwelwyr. Codwyd pafiliwn newydd a phedwar platfform rheilffordd ar gyfer yr achlysur.






## Gwybodaeth ddefnyddiol:

Yr orsaf reilffordd agosaf: Corwen

Parcio: Canol tref Corwen

Hyd: 2 filltir

Amser: 1 – 2 awr

Map OS: 255 Llangollen a'r Berwyn

Tir: Rhai mannau serth ac anwastad

# Gro Isa

**Mae Gro Isa yn ardal o laswelltir sy'n darparu hafan i adar, gloÿnnod byw a mamaliaid bach.**



Mae'r enw yn cyfeirio at y gro mân ar wely'r afon. Mae glannau'r afon â helyg a brwyn, ac mae'r dyfroedd bas yn lle ardderchog i drochi yn yr afon. Ond cadwch draw oddi wrth y dŵr dwfn cyflym fodd bynnag, a sicrhau bod yr holl anifeiliaid yn cael eu dychwelyd i'w cynefin.

Gan anelu at y Lôn Werdd o'r prif faes parcio wrth yr orsaf, cerddwch ychydig i lawr y lôn ac yna trowch i'r chwith ar hyd trac wrth faes chwarae. Chwiliwch am giât i gerddwyr ar yr ochr dde a llwybr troed i Gro Isa.

Ar hyd rhannau o ffin Gro Isa gwelir cerrig llechi anferth ar eu sefyll – dyma ddull sy'n arbennig i ardal Corwen ac i stad y Rug yn arbennig.

Mae'r Ddyfrdwy yn enwog am ei heog, brithyll brown a lampreiod. Dywedir hefyd iddi fod yn un o'r afonydd gorau ym Mhrydain ar gyfer penllwydion sydd yn arwydd sicr o ddŵr glân.

Mae ymyl y dŵr yn gartref i ddyfrgwn a llygod dŵr, ac fe welir adar fel y trochwyr, crehyrod glas a hwyaid danheddog yn aml.








Fe ymwelodd yr arlunydd JMW Turner â Chorwen yn ystod un ymweliad o blith nifer â Dyffryn Dyfrdwy. Fe frasluniodd ‘The River Dee at Corwen; Man Fishing and Cattle Watering’ yn 1808 ac yn ddiweddarach yn 1809 fe baentiodd ‘The Trout Stream’.
Mae’r ddau lun yn cynnwys bwâu cyfarwydd pont Corwen dros Afon Dyfrdwy.

## Gwybodaeth ddefnyddiol:

Yr orsaf reilffordd agosaf: Corwen

Parcio: Canol tref Corwen

Hyd: 1 milltir

Amser: 40 munud

Map OS: 255 Llangollen a’r Berwyn

Tir: Rhannau fflat ond anwastad

# Caer Drewyn

**Mae taith gerdded i fyny at fryngaer Caer Drewyn yn rhoi'r cyfle i archwilio'r safle diddorol hwn o'r Oes Haearn, a'r golygfeydd gwych ar draws cefn gwlad. Mae Caer Drewyn yn Heneb Restredig. Caiff ei gwarchod yn safle archeolegol pwysig yng Nghymru.**




Dilynwch symbol y Fryngaer am daith gerdded gylchol 2 filltir, gan weld Caer Drewyn a Chloddiad Corwen. Mae Cloddiad Corwen yn dilyn llwybr a oedd unwaith yn hen lein reilffordd rhwng Corwen a Rhuthun.



Adeiladwyd bryngaer Caer Drewyn rywbryd rhwng 600 CC a 43 OC, ond yn wahanol i fryngaerau eraill yn yr ardal, nid cloddiau a ffosydd pridd sydd yna, ond wal gerrig fawr. Y tu mewn i'r rhagfuriau mae olion hen sylfeini cerrig rhai o'r tai crynion. Yn ôl y chwedl, roedd merch brydferth, cariad Drewyn y cawr, yn arfer godro'i gwartheg yma.

Nid yw'r safle wedi cael ei gloddio, ac mae llawer o gwestiynau heb eu hateb ynghylch ei hanes... Pam mae 'tyllau' crwn rhyfedd yn rhai o'r muriau? O ble daeth y cerrig? Nid oes unrhyw chwareli mawr yn yr ardal a dim awgrym o ffosydd, ac eto fe ddefnyddiwyd tunelli o gerrig yma!






Mewn mannau, mae cennau prin iawn yn gorchuddio'r cerrig, sydd wedi datblygu dros 2000 o flynyddoedd ar gynefin creigiog y waliau. Mae'n lle da i weld bras melyn, ac mae nifer fawr o gigfrain yn casglu yma yn yr hydref. Mae'n bleser gweld eu campau acrobatig yn yr awyr.



## Gwybodaeth ddefnyddiol:

Yr orsaf reilffordd agosaf: Corwen

Parcio: Y Ganolfan Hamdden oddi ar y B5437

Hyd: 2 filltir

Amser: 1 - 2 awr

Map OS: 255 Llangollen a'r Berwyn

Tir: Rhai mannau serth ac anwastad

# Corwen

## Rheilffordd Cynwyd ac Eglwys Llangar

**Roedd yr hen reilffordd hon unwaith yn cludo trenau o Gorwen i Abermaw, ond erbyn hyn mae'n cynnig taith gerdded hyfryd drwy goetiroedd a glaswelltiroedd. Mae'r Ddyfrdwy gerllaw yn gartref i ddyfrgwn, gleision y dorlan a phibyddion y traeth, gyda mulfrain, hwyaid danheddog a chrehyrod glas yn ymwelwyr cyson.**




Cerddwch i'r gorllewin ar hyd yr A5 i droad Cynwyd. Dilynwch arwyddion Llwybr Gogledd y Berwyn neu Lwybr Brenig a chadwch at linell y llwybr drwy'r gerddi preifat.



Hanner ffordd rhwng Corwen a Chynwyd, byddwch yn mynd heibio Eglwys ddiddorol Llangar, sydd bellach yn eiddo Cadw, ac mae'n werth ymweld â hi.  Yn ôl dogfennau o 1730, yr enw gwreiddiol ar yr eglwys oedd Llan-Garw-Gwyn, eglwys y carw gwyn. Yn ôl y chwedl, fe ddychrynwyd carw gwyn gan redeg o safle'r eglwys, ac ôl ei draed a ddynododd ffiniau'r plwyf.

Ceir y cofnod cynharaf o'r eglwys ym 1291. Adnewyddwyd yn gelfydd dros ben ac mae'n cynnwys murluniau anhygoel o'r 14eg ganrif.




## Gwybodaeth ddefnyddiol:

Yr orsaf reilffordd agosaf: Corwen

Hyd: 3 - 5 milltir

Amser: 2 - 4 awr

Map OS: 255 Llangollen a'r Berwyn

Tir: Rhannau fflat ond anwastad

# Glyndyfrdwy

**Mae Glyndyfrdwy yn gorwedd mewn man prydferth yn Nyffryn Dyfrdwy, gan swatio rhwng Mynyddoedd Llantysilio dan orchudd y grug, a chadwyn gwyllt y Berwyn, y gellir eu harchwilio drwy ddefnyddio Llwybr Dyffryn Dyfrdwy neu Lwybr Gogledd y Berwyn.**




Mae'r daith fer hon yn dilyn y dyffryn trawiadol a luniwyd gan Afon Nant y Pandy. Mae'n dringo'n ysgafn o Lyndyfrdwy drwy hen waith llechi segur i weundir agored uwchben.

Archwiliwch yr hen dramffordd lle mae adeiladau ac ardaloedd gwaith segur yn cyfuno â llethrau coediog hyfryd a rhaeadrau, wrth i natur adennill ei ddyffryn.

Mae'r llwybr yma'n eich cymryd o Orsaf Reilffordd Dreftadaeth yng Nglyndyfrdwy ac i fyny drwy goed 'Y Pandy', gan ddilyn y ffrwd a arferai ddarparu'r holl bŵer ar gyfer y chwareli llechi – mae eu gweddillion i'w gweld ar hyd y llwyr yma ynghyd â thair rhaeadr syfrdanol a sŵn yr adar.

Mae gan bob tymor ei swyn unigryw. Yr hydref yw'r amser gorau i weld amrywiaeth o ffwng. Yn ystod y gaeaf, fe fydd y rhaeadrau'n swnllyd. Os ddewch chi yn y gwanwyn a'r haf, rydych chi'n debygol o glywed sŵn arbennig iawn – galwad Cacynen y Coed, un o dros 30 o rywogaethau o adar sy'n mudo ac yn nythu yma bob gwanwyn.

I ddarganfod mwy dilynwch y cod QR i lawrlwytho Taith Sain Nant y Pandy Glyndyfrdwy

Lawrlwythwch y llwybr cyn cychwyn ar y daith gan y gall y signal ffôn fod yn wan.




## Gwybodaeth ddefnyddiol:

Yr orsaf reilffordd agosaf: Glyndyfrdwy

Hyd: 2.5 filltir

Amser: 1.5 - 2 awr

Map OS: 255 Llangollen a'r Berwyn

Tir: Llethrau ysgafn gyda mannau anwastad

# Carrog

**Enw gwreiddiol Carrog oedd Llansanffraid Glyndyfrdwy ac roedd yn gartref i Owain Glyndŵr. Adeiladwyd ei faenordy ger y mwnt o'r 12fed ganrif ger yr A5. Yma y cyhoeddodd ei hun yn Dywysog Cymru a dechrau ei wrthryfel yn erbyn rheolaeth y Saeson yn 1400.**

Cafodd dyfodiad y rheilffordd yn 1865 effaith enfawr ar y pentref – cafodd gwneuthurwyr y rheilffordd drafferth gyda hyd yr enw, gan enwi'r orsaf ar ôl fferm leol. Yn fuan ar ôl hynny, cafodd y pentref ei hun hefyd ei adnabod fel Carrog, ac fe adeiladodd dynion busnes cyfoethog dai haf yma i'w teuluoedd.



## Llwybr Owain Glyndŵr

Ewch am dro o gwmpas y pentref - allwch chi ganfod lle'r oedd "Carchardy" Owain Glyndŵr yn arfer bod?

Ewch i weld Mwnt Glyndŵr (mynediad o'r A5 ar hyd llwybr caniataol drwy garedigrwydd Gwersyllfa Gorsaf Carrog).








Mae'r Ddyfrdwy yn rhedeg yn rhydd o dan y bont o'r 17eg ganrif, ac mae llwybr troed glan yr afon yn darparu man ardderchog i wylio bywyd gwyllt.

Mae tafarn y Grouse ar yr ochr arall, wedi'i henwi ar ôl y rugiar ddu, aderyn prin sydd i'w weld ar fynyddoedd Llantysilio a'r Berwyn ar bob ochr i'r dyffryn.

## Gwybodaeth ddefnyddiol:

Yr orsaf reilffordd agosaf: Carrog

Hyd: 1 milltir

Amser: 40 munud

Map OS: 255 Llangollen a'r Berwyn

Tir: Glaswelltir a llwybrau anwastad


# Berwyn

## a Rhaeadr y Bedol

**Mae'r orsaf reilffordd yn y Berwyn mewn man cul yn Nyffryn Dyfrdwy, lle mae'r holl lwybrau trafnidiaeth hanesyddol yn gwasgu drwyddo gyda'i gilydd. Mae'r ffordd a'r rheilffordd yn plethu eu pontydd dros yr afon a'r gamlas ac mae'r Bont Gadwyn hanesyddol yn cynnig y cyfle i gerddwyr edmygu'r pedair priffordd fawr.**




Ar draws yr afon mae Camlas Llangollen, y gellir canfod ei gwreiddiau ar daith gerdded fer i'r gorllewin yn Rhaeadr y Bedol.



Cafodd 11 milltir gyntaf y gamlas eu datgan yn Safle Treftadaeth y Byd yn 2009 oherwydd y gorchestion anhygoel peirianyddol, gan gynnwys Traphont Ddŵr Pontcysyllte, a gafodd eu cyflawni gan William Jessop a Thomas Telford.

Yn union y tu hwnt i Raeadr y Bedol ceir Eglwys Llantysilio, eglwys hyfryd, gyda'i mynwent hudolus a ffenestri diddorol. Mae'r safle picnic yn Grîn Llantysilio yn cynnig golygfa wych o'r Rhaeadr yn erbyn cefndir nodedig mynyddoedd Llantysilio.




Wedi'i chodi gan y masnachwr glo lleol, Exuperius Pickering, y Bont Gadwyn oedd un o'r pontydd cadwyn cyntaf yn y byd.

Roedd y bont yn galluogi Pickering i gludo glo, calch a cherrig dros afon Dyfrdwy i ffordd newydd Telford o Lundain i Gaergybi (yr A5) heb iddo orfod talu'r doll ar bont Llangollen. Gellir dod o hyd i'w garreg fedd ym mynwent eglwys Llandysilio.





## Gwybodaeth ddefnyddiol:

Yr orsaf reilffordd agosaf: Berwyn

Parcio: Maes Llandysilio

Hyd: 1 milltir

Amser: 1 awr

Map OS: 255 Llangollen a'r Berwyn

Tir: Rhai mannau serth ac anwastad

# Llangollen

## i Warchodfa Natur Wenffrwd

**Dilynwch hen lwybr y lein reilffordd o Riwabon i'r Bermo i un cyfeiriad ac yna crwydrwch ar hyd y gamlas wrth i chi ddychwelyd. Mwynhewch ystod o gynefinoedd a golygfeydd trawiadol ar y daith gerdded hawdd yma sy'n cynnwys gwarchodfa natur Wenffrwd sy'n datblygu'n gyson ac a sefydlwyd yn 2021 ar gyn safle tirlenwi.**




Ar hyd y daith cewch weld tref hyfryd Llangollen sydd â golygfeydd trawiadol o Afon Dyfrdwy a Rheilffordd Dreftadaeth Llangollen.



Mae'r tir yng ngwarchodfa natur Wenffrwd yn ganlyniad i sawl degawd o adael gwastraff cartref, masnachol a diwydiannol o ardal Llangollen. Roedd hyd at 75,000 tunnell yn cael ei gludo yma bob blwyddyn hyd nes y rhoddwyd y gorau i dderbyn sbwriel yma yn yr 1980au. Roedd yr orsaf drosglwyddo ar gael i'r boblogaeth leol hyd at 2008.

Mae natur wedi gwneud gwaith gwych o adfer y safle. Mae'r ddôl blodau gwyllt yn darparu bwyd i beillwyr a'r morgrug melyn sydd yn creu'r twmpathau morgrug y gallwch eu gweld. Mae'r mieri trwchus yn cynnig ardal ddiogel i adar a mamaliaid.






Plannwyd y coetir ffawydd a phîn ar ran hŷn o'r safle tirlenwi oddeutu 40 mlynedd yn ôl. Mae llawer o'r coed ar y safle yn edrych fel petaent wedi eu difrodi, ond mae hyn yn darparu cyfleoedd clwydo ardderchog i ystlumod a chartref i wenyn unig.

## Gwybodaeth ddefnyddiol:

Yr orsaf reilffordd agosaf: Llangollen
Parcio: Canol tref Llangollen a Wenffrwd
Hyd: 3.5 milltir (mae cylchdaith Wenffrwd yn 0.5 milltir)
Amser: 2 - 3 awr
Map OS: 255 Llangollen a'r Berwyn
Tir: Yn wastad ac yn hygyrch gan fwyaf gydag ychydig o rannau serth byr.

